

Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel)

Chwefror 2024



1. Y cefndir

Y Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel

1. Ym mis Gorffennaf 2023, cytunodd Llywodraeth y DU yn ffurfiol i ymuno â'r Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel (CPTPP).¹ Ar y pryd, dywedodd:

*"The accession of the UK to the CPTPP will facilitate the establishment of a deeper trading relationship between the UK and all 11 of the original signatories. This will build upon existing trade agreements with Australia, Canada, Chile, Japan, Mexico, New Zealand, Peru, Singapore and Vietnam and further open growing markets to UK businesses in Malaysia and Brunei. Joining CPTPP will further liberalise the flow of international trade and investments between the UK and CPTPP countries, reducing or removing existing barriers among them."*²

2. Dywedodd Llywodraeth y DU hefyd y byddai angen deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau bod y DU yn cydymffurfio â'r CPTPP.³

3. Gwnaethom gyhoeddi adroddiad ar y Protocol ar y DU yn ymuno â'r CPTPP ym mis Medi 2023.⁴

4. Ym mis Hydref 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad yn nodi ei safbwynt ar y DU yn ymuno â'r CPTPP. Yn ei hadroddiad, dywedodd Llywodraeth Cymru:

"CPTPP may offer opportunities with countries which we currently do not have a trade deal with, for example Malaysia. CPTPP may also create some additional market access in the Indo-pacific region. However, we do not agree that gaining

¹ Llywodraeth y DU, [Collection: The UK and the Comprehensive and Progressive Agreement for Trans-Pacific Partnership \(CPTPP\)](#) (Saesneg yn unig)

² Llywodraeth y DU, [Memorandwm Esboniadol Drafft ar Deyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn ymuno â'r Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel](#), paragraff 2.6 (Saesneg yn unig)

³ Llywodraeth y DU, [Memorandwm Esboniadol Drafft ar Deyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn ymuno â'r Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel](#), paragraffau 5.1-5.7

⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [Cytundebau rhyngwladol: Cytundebau a drafodwyd ar 11 Medi 2023](#), Medi 2023

access to the CPTPP market should be of the greatest priority, given the EU remains our more important trading partner.”⁵

5. Roedd adroddiad Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi:

“Whilst only the UK government has the power to conclude international agreements that bind the whole of the UK, the Welsh Government has the power, under Section 62 of the Government of Wales Act 2006, to make representations about any matter affecting Wales. We have sought to engage with the UK Government on the negotiation of all new FTAs as constructively as possible, given the impact trade agreements can have across society in Wales.

The Senedd also has the power to pass laws relating to the observation and implementation of international obligations, meaning both the Welsh Government and the Senedd have a crucial role in implementing any legislative changes needed in devolved area as a result on new FTAs.”⁶

Y Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel)

6. Cyflwynwyd y Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel)⁷ (y Bil) i Dŷ'r Arglwyddi ar 8 Tachwedd 2023. Noddir y Bil gan yr Adran Busnes a Masnach.

7. Mae ei deitl hir yn nodi ei fod yn Fil i alluogi gweithredu'r CPTPP, a gwneud darpariaeth arall mewn cysylltiad ag ef.⁸

8. Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn nodi y bydd sicrhau y bydd y DU yn cydymffurfio â'r CPTPP drwy wneud newidiadau i gyfraith ddomestig i mewn tri maes, sef:

- rhwystrau technegol i fasnach;

⁵ Llywodraeth Cymru, [Y DU yn dod yn aelod o Bartneriaeth Cynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel: safbwynt Llywodraeth Cymru](#), Hydref 2023, paragraffau 2.7 (Saesneg yn unig)

⁶ Llywodraeth Cymru, [Y DU yn dod yn aelod o Bartneriaeth Cynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel: safbwynt Llywodraeth Cymru](#), Hydref 2023, paragraffau 5.1–5.2 (Saesneg yn unig)

⁷ [Bil Masnach \(Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel\)](#), fel y'i cyflwynwyd (Bil Tŷ'r Arglwyddi 4) (Saesneg yn unig)

⁸ Y Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel)

- caffael y llywodraeth;
- eiddo deallusol.⁹

9. Cwblhaodd y Bil ei daith yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 23 Ionawr 2024, a chafodd ei Ddarlleniad Cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin y diwrnod canlynol.¹⁰ Aeth y Bil i gyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar 20 Chwefror 2024.¹¹

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru

10. Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu ei bod yn ofynnol gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fydd Bil perthnasol yn y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu ei chymhwysedd deddfwriaethol.

11. Ar 8 Rhagfyr 2023, gosododd Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi, Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) gerbron y Senedd mewn perthynas â'r Bil.¹²

12. Ar 24 Ionawr 2024, gosododd Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) mewn perthynas â gwelliant gan y llywodraeth i'r Bil y cytunwyd arno yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi ar 16 Ionawr 2024.¹³

13. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaethol, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm a Memorandwm Rhif 2. Ar adeg cytuno ein hadroddiad, y dyddiad olaf ar gyfer adrodd oedd 15 Mawrth 2024.¹⁴

⁹ Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel), Nodiadau Esboniadol, paragraff 1 (Saesneg yn unig)

¹⁰ Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel), fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi (Bil Tŷ'r Cyffredin 153) (Saesneg yn unig)

¹¹ Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel), Cyfnodau

¹² Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Y Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel), 8 Rhagfyr 2023

¹³ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) y Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel), 24 Ionawr 2024

¹⁴ Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel), Rhagfyr 2023; Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

Darpariaeth y mae angen cydsyniad y Senedd ar ei chyfer

14. Asesiad Llywodraeth Cymru yw bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y darpariaethau a ganlyn yn y Bil, fel y nodir ym mharagraffau 8 i 28 o'r Memorandwm, a pharagraffu 8 i 10 o Femorandwm Rhif 2:

- cymal 2 (Trin cyrff asesu cydymffurfiaeth ac ati);
- cymal 3 (Caffael);
- cymal 4 (Dynodiadau tarddiad a dynodiadau daearyddol).

15. Mae Llywodraeth y DU o'r farn mai dim ond ar gyfer cymal 3 o'r Bil y byddai'r broses cydsyniad deddfwriaethol yn cael ei defnyddio o ran Cymru.¹⁵

Safbwynt Llywodraeth Cymru

16. Mae Gweinidog yr Economi yn argymhell y dylid rhoi cydsyniad y Senedd i gynnwys darpariaeth ddatganoledig o fewn cymalau 3 a 4 o'r Bil yn unig.¹⁶ Mae Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, hefyd yn datgan y dylid rhoi cydsyniad i welliant y llywodraeth i gymal 4.¹⁷

17. O ran cymal 3 o'r Bil, mae Gweinidog yr Economi yn datgan:

"Mae'r newidiadau i'r rheoliadau caffael yn cael eu nodi ar wyneb y Bil ac nid oes unrhyw bwerau newydd yn cael eu creu na'u rhoi. Er nad yw hynny'n ddelfrydol, dyma'r opsiwn gorau i fwrw ymlaen â'r newidiadau technegol, esboniadol hyn i is-ddeddfwriaeth gaffael.

Mae swyddogion wedi cydweithio'n agos â Llywodraeth y DU drwy gydol negodiadau'r Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel ym maes caffael, ac mae cyfleoedd cyson wedi eu darparu i gyflwyno meysydd o bwys."¹⁸

18. Nid yw Llywodraeth Cymru yn argymhell rhoi cydsyniad i gymal 2 "fel y mae wedi ei ddrafftio ar hyn o bryd."¹⁹ Barn Gweinidog yr Economi, fel y nodir yn y

Atodol ar y Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel), Ionawr 2024

¹⁵ Nodiadau Esboniadol, Atodiad A – 'Territorial extent and application in the United Kingdom'

¹⁶ Memorandwm, paragraff 45

¹⁷ Memorandwm Rhif 2, paragraff 15

¹⁸ Memorandwm, paragraffau 39–40

¹⁹ Memorandwm, paragraff 36

Memorandwm, yw oherwydd bod y pŵer o fewn y cymal yn cael ei roi i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig, "nid yw'n adlewyrchu'r setliad datganoli yn iawn."²⁰

19. Fodd bynnag, mae Gweinidog yr Economi yn datgan mewn perthynas â chymal 2:

"Ym marn Llywodraeth Cymru, os gwneir newidiadau priodol i gymal 2, yna, mewn egwyddor, gallai fod yn briodol i'r Bil wneud darpariaeth sy'n rhoi pŵer i weithredu Erthygl 8.6 mewn meysydd datganoledig oherwydd –

(a) bod cwmpas y pŵer yn gyfyngedig mewn cyfraith - dim ond i weithredu Erthygl 8.6 y gellir ei ddefnyddio a dim ond drwy ddiwygio is-ddeddfwriaeth, a

(b) bod cwmpas yr hyn y gellir ei wneud â'r pŵer mewn meysydd datganoledig ar hyn o bryd yn gyfyngedig iawn yn wir – nid ydym yn ymwybodol o unrhyw is-ddeddfwriaeth mewn meysydd datganoledig y gellid ei diwygio gan gymal 2."²¹

²⁰ Memorandwm, paragraff 33

²¹ Memorandwm, paragraff 34

2. Ystyriaeth y Pwyllgor

20. Trafodwyd y Memorandwm a Memorandwm Rhif 2 yn ein cyfarfod ar 29 Ionawr 2024.²²

21. Gwnaethom gytuno ar ein hadroddiad yn ein cyfarfod ar 19 Chwefror 2024.²³

Ein barn ni

Darpariaethau y mae angen cydsyniad deddfwriaethol ar eu cyfer

22. Nodwn fod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn anghytuno ynghylch pa rai o gymalau'r Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer.

23. Nodwn asesiad Llywodraeth Cymru o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, fel y nodir yn y Memorandwm a Memorandwm Rhif 2.

24. Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 2, 3 a 4 o'r Bil.

Casgliad 1. Rydym yn ystyried bod y cymalau o'r Bil a nodir yn y Memorandwm a Memorandwm Rhif 2 yn dod o fewn diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y disgrifir yn Rheol Sefydlog 29, a bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer o ganlyniad i hynny.

Cymal 2 – Rhwystrau technegol i fasnach

25. Rydym yn nodi barn Gweinidog yr Economi, fel y nodir yn y Memorandwm, oherwydd bod y pŵer o fewn cymal 2 yn cael ei roi i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig, "nid yw'n adlewyrchu'r setliad datganoli yn iawn."²⁴ Rydym hefyd yn nodi barn y Gweinidog bod cwmpas y pŵer hwn yn "gyfyngedig mewn cyfraith", a bod cwmpas ei ymarfer mewn meysydd datganoledig ar hyn o bryd "yn gyfyngedig iawn yn wir".²⁵

26. Rydym yn nodi ymhellach, ar adeg gosod y Memorandwm, fod y Gweinidog yn ysgrifennu at yr Arglwydd Johnston, y Gweinidog Buddsoddi, i nodi safbwynt

²² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 29 Ionawr 2024

²³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 19 Chwefror 2024

²⁴ Memorandwm, paragraff 33

²⁵ Memorandwm, paragraff 34

Llywodraeth Cymru ar y cymal hwn ac i egluro na allai argymell cydsyniad mewn perthynas â'r cymal fel y'i drafftaiwyd ar hyn o bryd.²⁶

27. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o wybodaeth inni am ei safbwynt mewn perthynas â'r cymal hwn, a chanlyniadau dymunol unrhyw ddiwygiadau yr hoffai iddynt gael eu gwneud i'r cymal.

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o wybodaeth am ei safbwynt mewn perthynas â chymal 2 o'r Bil, a chanlyniadau dymunol unrhyw ddiwygiadau yr hoffai iddynt gael eu gwneud i'r cymal.

28. Yn ogystal, gan fod dros ddau fis wedi mynd heibio ers gosod y Memorandwm, credwn y dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei hymgysylltiad â Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r cymal hwn.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei hymgysylltiad â Llywodraeth y DU mewn perthynas â chymal 2 o'r Bil.

Rhwymedigaethau rhyngwladol

29. Nodwn, ym mis Hydref 2023, y cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad ar y DU yn ymuno â'r CPTPP.²⁷ Rydym yn cytuno â datganiad Llywodraeth Cymru yn yr adroddiad bod ganddi hi a'r Senedd rôl hollbwysig o ran gweithredu unrhyw newidiadau deddfwriaethol sydd eu hangen mewn meysydd datganoledig o ganlyniad i gytundebau masnach rydd newydd.

Casgliad 2. Fel y Pwyllgor sy'n gyfrifol am effeithiau cyfansoddiadol materion allanol, credwn fod gan y Senedd a Llywodraeth Cymru rôl hanfodol i'w chwarae wrth weithredu unrhyw newidiadau deddfwriaethol sydd eu hangen mewn meysydd datganoledig o ganlyniad i gytundebau masnach rydd rhyngwladol newydd.

30. Rydym yn nodi defnydd Llywodraeth Cymru o adran 62 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* i wneud sylwadau ar unrhyw fater sy'n effeithio ar Gymru, fel y cyfeiriwyd ato yn ei adroddiad ar y DU yn dod yn aelod o'r CPTPP.²⁸

²⁶ Memorandwm, paragraff 35

²⁷ Llywodraeth Cymru, Y DU yn dod yn aelod o Bartneriaeth Cynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel: safbwynt Llywodraeth Cymru, Hydref 2023 (Saesneg yn unig)

²⁸ Llywodraeth Cymru, Y DU yn dod yn aelod o Bartneriaeth Cynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel: safbwynt Llywodraeth Cymru, Hydref 2023, paragraff 5.1 (Saesneg yn unig)

Casgliad 3. Rydym yn croesawu dibyniaeth Llywodraeth Cymru ar adran 62 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* i gyflwyno sylwadau am unrhyw fater sy'n effeithio ar Gymru, fel y mae'n ymwneud â rhwymedigaethau rhyngwladol.

31. Rydym yn croesawu'r lefel gynhwysfawr o fanylion a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei hadroddiad ar y DU yn dod yn aelod o'r CPTPP mewn perthynas â gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol mewn cyd-destun datganoledig. Mae dull Llywodraeth Cymru o lunio adroddiad o'r fath wedi ein cynorthwyo i graffu ar y memoranda a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bil.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru ailadrodd ac adeiladu ar y dull a ddefnyddiwyd wrth adrodd ar ei safbwyntiau ar y DU yn dod yn aelod o'r CPTPP ar gyfer cytundebau masnach rydd rhyngwladol yn y dyfodol y cytunwyd arnynt gan Lywodraeth y DU.

Yr effaith ar y berthynas rhwng y DU a'r UE

32. Rydym yn nodi barn Llywodraeth Cymru, fel y nodwyd yn ei hadroddiad ar y DU yn dod yn aelod o'r CPTPP, bod y gofyniad yn y cytundeb (a weithredir gan gymal 2) i lywodraethau'r DU gydymffurfio â'r ddarpariaeth Triniaeth Genedlaethol o Gyrrff Asesu Cydymffurfiaeth:

*"... could set an unhelpful precedent for future trade deals whereby, other trade partners may seek to use opportunity to try and influence the UK to change its accreditation system for conformity assessment. Changes to the UK's accreditation system for conformity assessment could potentially lead to risks in product safety and divergence from the EU, which in turn will lead to increased barriers for Welsh and UK businesses in trading with our biggest trading partner."*²⁹

33. Rydym hefyd yn nodi'r cadarnhad a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei hadroddiad bod y DU yn gallu sicrhau esemptiad o un o ddarpariaethau'r cytundeb er mwyn sicrhau bod y DU yn cydymffurfio â Chytundeb Ymadael rhwng y DU a'r UE:

"The UK was able to secure an exemption from one of the provisions within the annex that prohibits CPTPP members from being able to restrict the use of traditional terms (such as

²⁹ Llywodraeth Cymru, Y DU yn dod yn aelod o Bartneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel: safbwynt Llywodraeth Cymru, Hydref 2023, paragraff 6.82 (Saesneg yn unig)

'chateau' and 'tawny') in their wines and spirits imports. This provision would have conflicted with the obligation that the UK has with the EU under the UK-EU Withdrawal Agreement to protect 'traditional terms' for wine. In securing this exemption, the UK can meet its obligations under both the CPTPP Agreement and the UK-EU Withdrawal Agreement."³⁰

³⁰ Llywodraeth Cymru, Y DU yn dod yn aelod o Bartneriaeth Cynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel: safbwynt Llywodraeth Cymru, Hydref 2023, paragraff 6.90 (Saesneg yn unig)